

Adroddiad y Prif Arholwr

Arholiadau Aelodaeth Sylfaenol Hydref 2019

Mae Aelodaeth Sylfaenol yn cyfateb i waith a wneir dan oruchwyliaeth ar lefel broffesiynol sylfaenol. Disgwylir i'r ymgeisydd gynhyrchu gwaith cywir, addas a graenus o fewn terfynau amser.

Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Nifer yr ymgeiswyr: 36
Llwyddo: 10

Bu ychydig dros chwarter yr ymgeiswyr yn llwyddiannus yn yr arholiad Sylfaenol y tro hwn, ac roedd sawl un arall wedi llwyddo i gyrraedd y safon angenrheidiol mewn un darn, ond heb lwyddo i gynnal y safon honno ar hyd y papur. Gydag un eithriad amlwg (a lwyddodd yn yr ail ddarn yn hytrach na'r cyntaf), roedd mwyafrif yr ymgeiswyr wedi cael gwell hwyl ar y darn cyntaf na'r ail, ac er bod nifer wedi llwyddo i gyrraedd y safon, siomedig oedd gweld rhai gwallau yng ngwaith pawb, a neb yn llwyddo i gael rhagoriaeth. Ar ben hynny, cyflwynwyd ambell sgript lle roedd yr ymgeiswyr yn amlwg wedi'u trechu gan ofynion y darn, a heb lwyddo mewn unrhyw un o'r pedair elfen sy'n cael eu hasesu. Mae'n bosibl mai nod yr ymgeiswyr hyn oedd defnyddio'r arholiad i weld a fyddai cyfieithu'n yrfa addas iddynt, ond gall methu'n llwyr fel hyn achosi cryn ddigalondid, a byddwn i'n annog unrhyw ddarpar gyfieithwyr i fanteisio'n llawn ar yr adnoddau sydd ar gael ar wefan Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru (yn arbennig yr ymarferion sy'n amlygu enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus ac aflwyddiannus), a hefyd i ddilyn e-weithdy cyn mentro ar yr arholiad ei hun.

Fel bob amser, y nod oedd gosod dau ddarn a fyddai'n argyhoeddi fel rhai y gallai cyfieithydd ddod ar eu traws yn ei waith pob dydd, ac roedd y darn cyntaf yn ymdrin â phwnc sydd wedi cael cryn sylw yn y cyfryngau yn ddiweddar, sef dysgu Addysg Grefyddol mewn ysgolion. O ystyried hynny, siom oedd gweld cynifer o'r ymgeiswyr yn baglu dros y frawddeg gyntaf un:

The legal requirements governing Religious Education (RE) in Schools were set out in the Education Reform Act of 1988 and confirmed by the Education Acts of 1996 and 1998.

1) Pennwyd y gofynion cyfreithiol sy'n llywodraethu Addysg Grefyddol (AG) mewn Ysgolion yn y Ddeddf Diwygiad Addysg 1988, a gadarnhawyd gan Ddeddfau Addysg 1996 a 1998.

2) Gosodwyd y gofynion cyfreithiol sydd yn rheoli Addysg Grefyddol (AG) mewn ysgolion yn y Ddeddf Diwygio Addysg 1988 a'i gadarnhau gan Ddeddfau Addysg 1996 ac 1988.

- 3) Cafodd yr anghenion cyfreithiol sy'n llywodraethu Addysg Grefyddol (AG) mewn Ysgolion eu trefnu yn Neddf Diwygio Addysg 1988 a'i chadarnhau gan Ddeddfau Addysg 1996 a 1998.
- 4) Sefydlwyd gofynion llywodraethol cyfreithiol Addysg Grefyddol (AG) mewn ysgolion yn Neddf Diwygiad Addysg 1988 a chadarnhawyd gan Ddeddf Addysg 1996 a 1998.
- 5) Cafodd y gofynion cyfreithiol ar Addysg Grefyddol (AG) yn Ysgolion eu gosod allan yn Neddf Diwygio Addysg 1998 a'u cadarnhau gan Ddeddfau Addysg 1996 ac 1998.
- 6) Cafodd y gofynion cyfreithiol sy'n llywodraethu Addysg Grefyddol (AG) mewn Ysgolion eu gosod allan yn Neddf Diwygio Addysg 1988 a chawsant eu hategu gan y Deddfau Addysg yn 1996 a 1998.
- 7) Datganwyd y gofynion cyfreithiol sy'n llywodraethu Addysg Grefyddol (AG) mewn Ysgolion yn Ddeddf Ddiwygio Addysg 1988, ac fe'u cadarnhawyd gan Ddeddfau Addysg 1996 ac 1998.
- 8) Lluniwyd y gofynion cyfreithiol sy'n gyfrifol am Addysg Grefyddol (Add Gref) mewn ysgolion yn Neddf Diwygio Addysg 1988 ac a gadarnhawyd gan Ddeddf Addysg 1996 a 1998.
- 9) Roedd yr ofynion cyfreithiol Addysg Grefyddol (AG) yn ysgolion wedi ei amlinelli yn y Ddeddf Diwygiant Addysg 1988 a chadarnhawyd gan y Deddfau Addysg 1996 a 1998.
- 10) Mae gofynion cyfreithiol sy'n llywodraethu Addysg Grefyddol (AG) yn ysgolion wedi cael ei gosod yn y Ddeddf Addysg 1988 ac wedi cadarnhau gan y Ddeddf Addysg 1996 a 1998.

Rwyf wedi mynd ar ôl y deg enghraifft uchod oherwydd eu bod yn cwmpasu llawer o'r gwendidau a welwyd yn y sgriptiau arholiad y tro hwn. Cafwyd ambell enghraifft oedd yn agos iawn at gyfleu'r ystyr yn gywir, heblaw am un llithriad bach neu air anaddas, ond roedd eraill yn ddiffygiol o ran elfennau mor sylfaenol â'r fannod, y gwahaniaeth rhwng 'yn' a 'mewn', dewisiadau geirfaol amhriodol o ran ystyr neu gywair, a chytundeb rhagenwau, tra bod yr enghreifftiau gwannaf yn ddiffygiol o ran cystrawen a chywirdeb. Nid yw brawddeg wallus fel hyn ar ddechrau papur arholiad yn argoeli'n dda; mae'n amlwg ar unwaith nad yw gafael yr ymgeisydd ar y Gymraeg yn ddigonol i fedru llwyddo, hyd yn oed ar y lefel Sylfaenol.

Gwaetha'r modd, gwelwyd enghreifftiau niferus o gamgyfieithu ar draws y ddau ddarn, e.e.:

- ...the teachings and practices of the other principal religions represented.*
- ...dysgeidiaeth ac ymarferion o grefyddau penadur wahanol sy'n cael ei gynrychioli.*
- ...wrth hefyd ystyried ar ymarferion ac athrawiaeth brif grefyddau eraill.*
- ...wrth hefyd ystyried dysgeidiaeth ac ymarferion y brif grefyddon eraill a chynrychiolir.*

Parents have the right to withdraw their children from RE...

Mae gan rieni'r hawl i wrthod AG i'w plant...

Mae gan rieni'r hawl i eithrio eu plant rhag AG...

Mae gan rieni hawl i dynnu plentyn yn ôl o AG...

...Christian and other religious denominations...

...Cristion ac enwad crefyddol eraill...

...Christnogol ac enwadau eraill...

...Cristnogaeth a chrefyddau enwadol eraill...

In an attempt to resuscitate their towns...

Mewn ymgais i gynyddu poblogaeth eu trefi...

...an increase in the migration of young people...

...a chynnydd ym mudiad pobl ifanc...

...sell, or practically give away, abandoned homes...

...i werthu, neu bron â bod gwobrwyo tai anghyfannedd...

...rhoi tai sydd wedi eu diarddel i ffwrdd...

Ar ben hynny, siom oedd gweld llawer o wallau cywirdeb ar draws y sgriptiau. Er nad oes disgwyl i sgriptiau ymgeiswyr am Aelodaeth Sylfaenol fod yn ddi-fai – wedi'r cyfan maent yn dal i ddysgu eu crefft – ni ddisgwylir gwallau megis **yr hawl hwn**, cyfeirio at 'addysg grefyddol', 'cyfradd', 'cyfran' ac ati fel elfennau gwrywaidd, na chwaith hepgor elfennau pwysig, fel yn yr enghreifftiau canlynol:

...Italy is the only major European economy...

...yr Eidal yw'r unig economi Ewropeaidd...

...yr Eidal yw'r unig wlad yn Ewrop [y mae disgwyl i'w phoblogaeth]...

...each authority must review its agreed syllabus every five years.

...rhaid i bob awdurdod adolygu ei faes llafur bob pum mlynedd.

Each local authority must set up...

Rhaid i bob awdurdod sefydlu...

Roedd dau ymgeisydd wedi hepgor brawddeg gyfan, ac felly o reidrwydd wedi cael gradd oedd yn golygu eu bod yn methu yn yr elfen Ystyr.

Cafwyd hefyd wallau teipio esgeulus, megis **adlewyrchu'r faith, corf llywodraethol, cyfleodd, gwerthi, bobl hun, yn nhe'r Eidal** (*southern Italy*), ac enghreifftiau o dermau y gellid disgwyl iddynt fod yn gyfarwydd yn cael eu camgyfleu, e.e. **ymofynwyr noddfa** ('ceiswyr lloches'), **Mor y Cyfandir** (*Mediterranean*), a **dosbarthiadau meithrin** (*reception classes*).

Roedd sawl ymgeisydd wedi cael trafferth wrth ddefnyddio'r rhagenw perthynol, e.e.:

y prif grefyddau y cynrychiolir

wneud bob dim a gallant

maes llafur a gytunwyd arno

Wedi dweud hyn i gyd, cafwyd enghreifftiau niferus o gyfieithu llwyddiannus ar draws y sgriptiau, e.e.:

...among the regions that has lost most inhabitants in recent years

...ymhlith yr ardaloedd sydd wedi colli'r nifer fwyaf o drigolion yn ystod y blynyddoedd diwethaf

An agreed syllabus should reflect the fact that the religious traditions in Great Britain are in the main Christian...

Dylai maes llafur cytunedig adlewyrchu'r ffaith mai traddodiadau Cristnogol yn bennaf sy'n cael eu dilyn ym Mhrydain Fawr...

The legal requirements governing Religious Education (RE) in Schools were set out in the Education Reform Act of 1988 and confirmed by the Education Acts of 1996 and 1998.

Cafodd y gofynion cyfreithiol sy'n llywodraethu Addysg Grefyddol mewn Ysgolion eu nodi yn Neddf Diwygio Addysg 1988 a'u cadarnhau yn Neddfau Addysg 1996 a 1998.

...the village must have fewer than 2,000 residents, and the newcomer must pledge to open a business.

...mae'n rhaid bod gan y pentref lai na 2,000 o drigolion, ac mae'n rhaid i'r newydd-ddyfodiad addo agor busnes.

...an underpopulated region in southern Italy...

...ardal yn ne'r Eidal sy'n brin ei phoblogaeth...

In an attempt to resuscitate their towns, several mayors have opened the doors of their vacant homes to asylum seekers who have crossed the Mediterranean from Libya.

Mewn ymdrech i adfywio eu trefi, mae nifer o feiri wedi agor drysau eu cartrefi gwag i geiswyr lloches sydd wedi croesi Môr y Canoldir o Libya.

Enghreifftiau fel y rhain a sicrhodd fod 10 o'r ymgeiswyr yn llwyddiannus, ond hyd yn oed yng ngwaith y goreuon, ni lwyddodd neb i gynnal y safon uchaf ar draws holl elfennau'r ddau ddarn, a hynny er bod yr asesu ar y lefel hon yn caniatáu rhai mân lithriadau. Teimlid yn gyffredinol, fel mor aml, nad oedd yr ymgeiswyr hyn wedi dysgu darllen eu gwaith yn drylwyr cyn ei gyflwyno, a bod angen meithrin y ddawn honno.

Mae hefyd yn werth sôn, wrth fynd heibio, nad oedd pawb wedi gwneud defnydd doeth o'r troednodiadau. Mae perygl gwastraffu gormod o amser yn nodi pethau mae'r marcwyr yn ymwybodol ohonynt, er enghraifft nad oedd modd gwirio union deitl swyddogol rhyw sefydliad ar y we. Ni fydd neb yn methu'r arholiad am beidio â defnyddio'r teitl swyddogol cydnabyddedig am ryw fudiad; yr hyn sy'n bwysig, os nad yw'r teitl yn gyfarwydd a bod rhaid dyfalu, yw bod y ffurf a ddefnyddir yn ddyfaliad deallus, sy'n dilyn patrymau'r iaith darged.

Wrth longyfarch yr ymgeiswyr llwyddiannus, felly, carwn annog pawb o'r ymgeiswyr i ddarllen yn eang a manteisio ar yr holl ddeunydd cyfrwng Cymraeg sydd bellach ar gael, er mwyn gloywi eu sgiliau ieithyddol ymhellach, a manteisio ar bob cyfle i ddatblygu'r grefft o gywiro'u cyfieithiadau, fel bod modd iddynt gyflawni gofynion Aelodaeth Sylfaenol a chyflwyno gwaith cywir, addas a graenus yn yr arholiad.

Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg

Nifer yr ymgeiswyr: 16

Llwyddo: 9

Braf oedd gweld dros 50% o'r ymgeiswyr yn llwyddo y tro hwn, a sawl un arall yn agos iawn ati. Yn y cyswllt hwnnw, fodd bynnag, trist yw gorfod nodi bod un ymgeisydd wedi methu oherwydd ei fod wedi hepgor paragraff olaf yr ail ddarn. Er bod nerfau yn gallu gwneud y profiad o sefyll arholiad yn un digon anodd, mae'n rhaid sicrhau bod y testun cyfan wedi'i gyfieithu. Ni llwyddodd neb i gyrraedd safon ragoriaeth yn y papur cyfan, ond cafodd ambell un ragoriaeth mewn un darn, ac roedd gwaith y goreuon yn llifo'n dda, ac yn llwyddo i gyfleu naws y gwreiddiol yn effeithiol yn yr iaith darged.

Wedi dweud hynny, roedd y darnau prawf, er eu bod yn ymdrin â meysydd digon cyfarwydd, ac ar un wedd i weld yn rhai digon hwylus, yn galw am 'glywed' y cywair er mwyn llunio cyfieithiad addas. Dyma rai enghreifftiau lle llwyddwyd i wneud hynny:

Dwi ddim yn gogydd proffesiynol, dwi ddim yn ddeietegydd ac yn sicr dwi ddim yn arbenigwr ar blant.

I'm not a professional cook, I'm not a dietician and I'm certainly not an expert on children.

...dwi'n estyn am fwydydd cyflym pan fo amser – ac amynedd – yn brin.

...I reach for fast foods when time – and patience – are in short supply.

...I, [like every parent,] will reach for something quick when I'm short of time – and patience.

...erbyn hyn, mae hyd yn oed yn defnyddio cyllell finiog, dan oruchwyliaeth.

These days, he even uses a sharp knife under supervision.

Mae chwe wythnos o wyliau haf bellach wedi dirwyn i ben...

Six weeks of summer holidays have now come to an end...

...i hybu gyrru cyfrifol ac i orfodi'r terfyn cyflymder.

...to encourage responsible driving and to enforce the speed limit.

Nid gwneud arian ar draul modurwyr yw'r nod, ond gwneud ffyrdd Cymru'n fwy diogel i bawb.

The aim is not to profit at motorists' expense, but to make Wales' roads safer for everyone.

Mae enghreifftiau fel y rhain yn dangos bod yr ymgeiswyr wedi deall yr hyn sydd dan sylw yn y gwreiddiol, ac wedi llwyddo i gyfleu hynny'n naturiol yn Saesneg.

Mewn achosion eraill, fodd bynnag, gwelwyd cyfieithiadau oedd yn dangos nad oedd yr ymgeiswyr yn medru mynegi ystyr y gwreiddiol mewn modd oedd yn taro deuddeg.

Weithiau, y dewis o eirfa oedd ar fai, neu roedd elfennau wedi eu hychwanegu/hepgor; dro arall roedd y cyfieithiad yn cadw'n rhy agos at batrwm y gwreiddiol, fel bod y gystrawen Saesneg yn wallus. Dyma rai enghreifftiau:

...yn sicr dwi ddim yn arbenigwr ar blant.

...I'm certainly no children's specialist.

...pan fo amser – ac amynedd – yn brin.

...when time and patience is short.

...tywallt a thorri...

...spill and cut...

...dan oruchwyliaeth.

...under supervision of course.

...yr heriau a'r pryderon sy'n dod yn sgil hynny.

...the trials and tribulations that come with that.

Dwi'n trio sicrhau bod fy mab yn blasu cynifer o fwydydd gwahanol â phosib...

I try to ensure that my son experiences as wide a variety of tastes as possible...

Ond mae gen i blentyn bach i'w fwydo bob dydd...

I do, however, have a toddler to feed on a daily basis...

(roedd gweddill y darn yn dangos nad 'toddler' sydd dan sylw yma)

Dwi'n gwybod bod hynny'n golygu mwy o lanast...

I realise that this does involve a degree of mess...

...ond gwaetha'r modd mae rhai modurwyr yn parhau i oryrru.

...but unfortunately motorists continue to speed.

...but unfortunately some motorist keep speeding.

Mae chwe wythnos o wyliau haf bellach wedi dirwyn i ben...

By now the six weeks of the summer holidays are drawing to a close...

Six weeks of summer holidays have finally come to an end...

The six-week summer break is drawing to a close...

Ein gobaith yw gallu adrodd...

Our hope is to report...

...os gwelwch fan mesur cyflymder...

...if you see a speed camera...

...ysgolion ledled Cymru...

...schools throughout the country...

...ein swyddogion lleihau anafiadau...

...our harm reduction officers...

...gyda'r nod o orfodi'r terfyn cyflymder sydd wedi'i bennu yn yr ardaloedd hynny

...with the aim to force speed limit in areas...

Yr hyn sy'n drawiadol am lawer o'r enghreifftiau hyn yw nad elfennau 'anodd' sydd wedi baglu'r ymgeiswyr, ond eu hanallu i brawffdarllen eu gwaith yn ddigon gofalus. Fel mewn cynifer o adroddiadau blaenorol, felly, rhaid pwysleisio'r angen am wirio ystyr y cyfieithiad yn erbyn y gwreiddiol yn fanwl. Fel arall mae perygl y bydd elfennau'n cael eu hychwanegu,

eu hepgor neu eu camgyfieithu. Dim ond ar ôl cwblhau'r cam hwnnw y dylai ymgeiswyr edrych ar y cyfieithiad fel darn annibynnol o waith, ac addasu'r mynegiant yn yr iaith darged, lle bo angen hynny. Mae datblygu sgiliau prawfddarllen a mireinio yn rhan annatod o grefft y cyfieithydd, a charwn annog yr holl ymgeiswyr i fanteisio ar bob cyfle a gânt i wella'r sgiliau hynny.

Wrth gloi fy adroddiad, fel bob amser, carwn ddiolch o galon i staff Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru a'r Bwrdd Arholi Testunau am bob cefnogaeth a chymorth.

Fiona Gannon
Tachwedd 2019